

Cyngor Cymuned Llanelian (293)

Cofnodion cyfarfod Rhagfyr 5ed, 2017 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol: Dafydd Griffiths, Hefina Williams, Helen Hughes, John Griffiths, Gordon Hayes, Glenys Jones, Ian Evans, Thomas Jones, Elfyn Hughes

Ymddiheuriadau: Carol Whitaker, Cyng Aled Jones

Yn bresennol: Carli Evans Thau (Clerc)

1 Croeso

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Dafydd Griffiths, ac fe groesawyd pawb i'r cyfarfod. Diolchwyd i Hefina Williams am gadeirio'r cyfarfod blaenorol.

2 Datgan Diddordeb

Neb yn datgan diddordeb.

3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir cynnig Helen Hughes, eilio Gordon Hayes.

4 Materion yn Codi o'r Cofnodion

4.1 Arwydd Llwybr Cyhoeddus

Nodwyd bod yr arwydd ger Pen Lon heb ei ail osod. Cytuno cysylltu a CSYM eto.

4.2 Arolwg Tai

Nid oedd ddiweddariad pellach er bod ebost wedi ei anfon at y wahanol gyrff sy'n ymwneud a'r gwaith. Nodwyd siom yr aelodau nad oedd cydweithio gyda'r asiantaethau. Cytuno ysgrifennu eto gyda chopi i Dr Gwynne Jones a'r tri cynghorydd sirol yn gofyn am eglurhad pam fod fasiwn oedi.

4.3 Lon yr Ysgol

Mae llythyr wedi ei anfon allan i rieni cyn yr haf. Bydd Glenys Jones yn atgoffa'r llywodraethwyr i anfon llythyr eto yn eu cyfarfod nesaf.

4.4 Swyddfa Bost

Nodwyd both peth arwyddion Cymraeg wedi eu gosod erbyn hyn. Mae mwy o arwyddion Cymraeg i ddod o'r brif swyddfa. Mae stampiau Cymraeg hefyd i'w cael yno.

4.5 Giat y Fynwent

Mae disgwyl dau pris arall am y gwaith i baratoi cynlluniau.

4.6 Cerbydau Fferm

Mae John Griffiths wedi siarad a'r ffermwr sydd yn dal y tir dan sylw, ac fe beidiodd y gwaith am bythefnos. Nododd bod cyflwyr y lonydd ardal Nebo a Mynydd Eilian yn warthus gyda thrigolion lleol yn cwyno i'r Cyngor Sir ac yn cael eu cyfeirio at y Cyngor Cymuned!

Deallwyd mai gwastraff llefrith o'r ffatri gaws yn Llangedfni sy'n cael ei daenu dros y tir. Roedd pryderon am faint o'r gwastraff sydd wedi ei daenu hyd yma – ydi o fudd i'r tir ynteu cael gwared o wastraff? Roedd pryderon bod yr hylif yn rhedeg i'r afonydd lleol ac yn lygru'r ardal yn ogystal a maint y cerbydau oedd yn ei ddanfon. Cytuno cysylltu a gwahanol adrannau o fewn CSYM yn ogystal a Chyfoeth Naturiol Cymru am wybodaeth pellach ynglŷn a thrwyddedu.

4.7 Mainc ger yr Eglwys

Mae gan adran Llwybr yr Arfordir mainc ar gael yn eu storfa yn Llannerch-y-medd. Mae John Griffiths am gysylltu a'r swyddog priodol er mwyn trefnu bod y mainc yn cael ei ddanfon ato. Bydd John Griffiths a TD Jones yn gosod y mainc yn ei lle.

5 Caeau Chwarae

Nododd Gordon Hayes ei fod wedi gosod yr arwyddion yn y caeau chwarae. Nodwyd bod CSYM wedi symyd yr arwyddion ffordd ar Lon Tyddyn Waen, ond roedd pryderon eu bod yn rhy uchel ac nad oedd gyrrwyr yn eu gweld. Mae ceir yn dal i yrru lawr yn lon yn llawer rhy gyflym. Nododd

Hefina Williams ei bod wedi cysylltu a'r cwmni (Carelink) i gwyno a chodi ymwybyddiaeth. Cytuno dylai'r Cyngor ysgrifennu at y cwmni i godi ymwybyddiaeth o'u pryderon.

6 Llithrfa

Mae cyfarfod wedi'i drefnu nos Fercher Rhagfyr 13 yn y Neuadd Bentref am 7 o'r gloch.

7 Cynllunio

7.1 Ceisiadau – roedd un cais i'w ystyried:

- Bryn Awelon, Llaneilian (24EL/1539E) - dim sylw

7.2 Penderfyniadau – cafwyd wybod am benderfyniadau y Cyngor Sir fel a ganlyn:

- Corn Farm Cottage (24C347) – caniatad
- Clustach, Llaneilian (24C343) – gwrthod
- Bryn Glas Bach, Llaneilian (24C348) – caniatad
- Maesteg, Llaneilian (24C199F) – caniatad

8 Materion Ariannol

8.1 Taliadau

Cymeradwywyd y taliad canlynol:

£653.00 Cyflog Clerc gan gynnwys Tal Rheoli Mynwent Bosra

Fe ofynnodd Gordon Hayes ai'r Cyngor ynteu'r Henaduriaeth oedd yn gyfrifol am y giat a'r llwybrau ym Mynwent Bosra. Cadarnhawyd mai cyfrifoldeb yr Henaduriaeth oedd rhain. Cytuno cysylltu a nhw i godi ymwybyddiaeth eu bod yn fler ac angen sylw. Mae'r giat angen sylw cyn gynted a phosib cyn i'w gyflwyr waethygu. Y clerc i wirio'r arwydd sydd wedi ei arddangos ger y giat. Hefina Williams i gadarnhau pwy yw'r cynrychiolwyr lleol ar fwrdd yr Henaduriaeth.

8.2 Ceisiadau am Arian

Dim ceisiadau wedi'i derbyn.

8.3 Cofrestr Asedau

Cafwyd wybod gan y clerc ei bod yn pori drwy hen gyfrifon am wybodaeth ariannol a'i bod yn y broses o dynnu llyniau o wahanol asedau ar gyfer y gofrestr.

9 Cronfa Ty Moel Isaf

Dim diweddariad.

10 Iechyd a Diogelwch

10.1 Mae Gordon Hayes wedi canfod grid heb gaead. Mae CSYM wedi eu hysbysebu er mwyn iddynt ei drin a'i wneud yn ddiogel.

10.2 Mae tap wedi ei osod ar lamp ger y troead i fewn i'r pentref wedi i'r drws ddisgyn oddi arno. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu a CSYM i weld ba bryd fydd y golau yn cael ei drwsio'n barhaol.

10.3 Nodwyd bod y wal o'r giat mochyn tuag at safle bws Marie Curie mewn cyflwr gwael ac roedd pryderon ei fod am disgyn i'r llwybr. Mae'n debyg mai Llys Dulas sydd berchen ar y cae. Cytuno codi ymwybyddiaeth gyda CSYM er budd defnyddwyr y llwybr.

11 Panel Adolygiad Annibynnol

Trafodwyd y pedwar cwestiwn mewn peth manylder. Cytuno byddai'r Cyngor yn ymateb erbyn mis Chwefror 2018 ac y byddai'r mater yn cael ei drafod eto ym mis Ionawr. Y prif bwynt a nodwyd oedd y diffyg cefnogaeth a chydweithio gan swyddogion CSYM. Cytuno byddai llunio rhestr o gyfrifoldebau a'r hyn mae'r Cyngor Cymuned yn ei wneud erbyn y cyfarfod nesaf.

12 Wylfa Newydd

12.1 Ymgynghoriad Ymbelydredd – Mae ymgynghoriad ar hyn o bryd ynglŷn a thrwydded deunydd ymbelydredd. Mae angen ymateb erbyn Ionawr 14, 2018 os am wneud hynnu.

12.2 Clirio a Pharatoi Safle - Cytuno'n gryf byddai'r Cyngor yn cefnogi Cyngor Cymuned Llanbadrig i wrthwynebu'r cais cynllunio i baratoi a chlirio'r safle cyn i'r cais am dwydded datblygu gael ei

gyflwyno. Cytuno nad oedd pwrpas chwalu'r ardal nes bydd y prosiect wedi ei gymeradwyo.

12.3 Datganiad Tir Cyffredin - Cafwyd wybod bod Partneriaeth Cynghorau Gogledd Mon wedi dechrau trafodaethau gyda Horizon i ddatblygu dogfen sy'n amlinellu holl bryderon yr ardal a sut mae Horizon yn bwriadu ymateb a chyfaddawdu. Bydd posib datblygu dogfen tebyg yn benodol ar gyfer Cyngor Llanelian Mae'r ddogfen yn ffurfio rhan holl bwysig yn cais y cwmni am drwydded datblygu.

13 Gohebiaeth

13.1 Pwyllgor Safonau – cafwyd wybod mai Cyng Keith Roberts a Cyng Iorwerth Roberts sydd wedi eu hethol i'r pwyllgor.

14 Unrhyw Fater Arall

14.1 Traen Lon – nodwyd bod y traeni o Dublin hyd Capel Carmel wedi eu rhwystro ac nad oedd dwr yn mynd i lawr o'r lon. Mae'r un broblem ar Lon Gadfa. Y clerch i gysylltu a CSYM cyn gynted a phosib.

14.2 Golau tu allan i'r Neuadd – nododd Elfyn Hughes bod Pwyllgor y Neuadd yn trefnu i'r golau gael ei drwsio cyn gynted a phosib.

14.3 Clwb Ieuenctid – gofynnwyd i'r clerch ysgrifennu at aelodau'r clwb ieuenctid yn diolch iddynt am osod torch ar y gofeb. Cytuno bod angen trefnu rhywbeth mwy swyddogol ar gyfer 2018, cynnig te a choffi yn y Neuadd wedi gwasanaeth er enghraifft.

14.4 Coeden Nadolig - trafodwyd y posibilrwydd o gael coeden y tu allan i'r Neuadd ar gyfer 2018. Hefina Williams i wneud ymholiadau gyda Llys Dulas am gefnogaeth.

15 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Bydd y cyfarfod nesaf Ionawr 16 am 7 o'r gloch.

Bu'r cyfarfod orffen am 20.30.

**Arwyddwyd
Dafydd Griffiths
Cadeirydd**